# Rhaglen Gyflawn

Gwasanaeth Democratiaeth
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD IAU, 21AIN MAI, 2015**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda - Swyddfeydd y Cyngor**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans 01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.gov.uk**

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 13 Mai 2015)

# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

**AELODAETH (18)**

## Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

Craig ab Iago
Dilwyn Morgan
Eurig Wyn
Annwen Daniels
W. Tudor Owen
Linda Morgan
Annwen Hughes
E. Caerwyn Roberts

## Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

Eric M. Jones
Angela Russell
Nigel Pickavance
Mike Stevens

## Llais Gwynedd (3)

Y Cynghorwyr

Llywarch Bowen Jones
Gruffydd Williams
Robert J. Wright

## Llafur (1)

Y Cynghorydd Gwynfor Edwards

## Democratiaid Rhydfrydol (1)

Y Cynghorwyr Stephen W. Churchman

## Aelod Unigol (1)

Y Cynghorydd Louise Hughes

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

## Aelodau Eraill a Wahoddwyd

| | |
|---|---|
| John Wynn Jones | Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Dafydd Meurig | Aelod Cabinet Cynllunio a Rheoleiddio |
| W. Roy Owen | Cynrychiolydd ar Fwrdd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru |

# R H A G L E N

## 1. CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd am 2015/16

## 2. IS- GADEIRYDD

I ethol Is-gadeirydd am 2015/16

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 6. COFNODION 1 - 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid arwyddo cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor hwn, a gynhaliwyd ar 24 Chwefror, 2015, fel rhai cywir

## 7. ARBEDION EFFEITHLONRWYDD 2015/16 - 2017/18 7 - 8

**Aelod Cabinet: Cynghorydd John Wynn Jones**

Ystyried Adroddiad  Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol

## 8. DEFNYDD O HAWLIAU GORFODAETH 9 - 10

**Aelod Cabinet: Cynghorydd John Wyn Jones**

Ystyried Adroddiad Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol

**9.** **HYLENDID BWYD** 11 - 13

**Aelod Cabinet: Cynghorydd Dafydd Meurig**

Ystyried Adroddiad  Pennaeth Rheoleiddio

**10.** **BRIFF YMCHWILIAD CRAFFU - Y DREFN CYNLLUNIO** 14 - 15

**Aelod Cabinet: Cynghorydd Dafydd Meurig**

a) Cyflwyno crynodeb sgopio ar gyfer Ymchwiliad Craffu

b) Ystyried  aelodau i wasanaethu ar yr Ymchwiliad Craffu

**11.** **ATEBOLRWYDD Y GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU** 16 - 19

Ystyried Adroddiad Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol

## PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU 24.02.2015

**1. YN BRESENNOL** - Y Cynghorydd Angela Russell (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:- Stephen Churchman, Annwen Daniels, Annwen Hughes, Louise Hughes, Eric M Jones, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, W Tudor Owen, Caerwyn Roberts, Mike Stevens, Gruffydd Williams, Robert J Wright.

**SWYDDOGION:** Arwel Ellis Jones (Uwch Rheolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol), Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**HEFYD YN BRESENNOL:**

i) Mewn perthynas ag eitem 6 ar y rhaglen – Catherine Roberts (Rheolwr Cyflawni Diogelwch Cymunedol) a'r Arolygydd Mark Armstrong ( Heddlu Gogledd Cymru)

ii) Mewn perthynas ag eitem 7 ar y rhaglen - Y Cynghorydd Dafydd Meurig – Aelod Cabinet Cynllunio, Cynghorydd Jason Humphreys (Aelod Lleol – Dwyrain Porthmadog), Mr Aled Davies (Pennaeth Rheoleiddio) a Mr Iwan Evans (Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol)

iii) Mewn perthynas ag eitem 8 ar y rhaglen - Cynghorydd John Wynn Jones - Aelod Cabinet Amgylchedd, Mr Gwyn Morris Jones (Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol) a Mr Steffan Jones (Uwch Reolwr Gwastraff a Chomisiynu)

iv) Mewn perthynas ag eitem 9 ar y rhaglen – Cynghorydd Mair Rowlands– Aelod Cabinet – Hamdden a Mr Ian Jones (Uwch Reolwr Datblygol – Economi a Chymuned)

**YMDDIHEURIADAU:**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Llywarch Bowen Jones. Croesawyd y Cynghorydd Annwen Daniels i'w chyfarfod cyntaf.

**2. IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Caerwyn Roberts yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu hwn am 2014/15.**

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**4. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**5. COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr 2014 fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

**6. DIWEDDARIAD BLYNYDDOL Y BARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL**

Croesawyd Catherine Roberts (Rheolwr Cyflawni Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn) a'r Arolygydd Mark Armstrong (Heddlu Gogledd Cymru) i'r cyfarfod.

a) Cafwyd diweddariad ar waith y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Eglurwyd bod gofyn i'r Bartneriaeth adrodd yn ffurfiol i'r Pwyllgor yn flynyddol gan gyflwyno trosolwg o brif ddatblygiadau strategol y Bartneriaeth dros y flwyddyn. Mae hyn yn sicrhau bod y Bartneriaeth yn cyflawni ei hoblygiadau yn unol ag adrannau Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2006.

b) Mewn ymateb i sylwadau a gyfeiriwyd at y Bartneriaeth yn dilyn cyfarfod paratoi o'r pwyllgor, dosbarthwyd taflen wybodaeth a manylion penodol am y prif ardaloedd troseddu yng Ngwynedd. Nodwyd bod yr Heddlu yn canolbwyntio ar y lleoliadau lle mae'r mwyafrif o droseddau yn digwydd. Mewn sefyllfaoedd o ail - droseddu, mynegwyd bod y Cynllun *Integrated Offending Management* yn rhoi cefnogaeth i unigolion newid eu ffordd o fyw.

c) Mewn ymateb i bryder at y cynnydd mewn troseddau rhywiol, nodwyd bod gwaith penodol yn cael ei wneud i annog pobl i adrodd ar droseddau o'r fath. O ganlyniad i sylw penodol yn y wasg i achosion ymysg rhai enwogion y byd teledu ymddengys bod hyn wedi argymell eraill i ddod ymlaen. Amlygwyd bod newidiadau i'r dull o adrodd wedi eu gweithredu dros y degawd diwethaf ac mewn ymateb i'r cynnydd adroddwyd bod Prif Arolygydd Gogledd Cymru yn trefnu uwch gynhadledd i ystyried ymchwiliadau penodol a rhannu gwybodaeth.

ch) Gwnaed cais i adrodd ar droseddau o ddifrod a llosgi bwriadol fel dau fater gwahanol. Derbyniwyd y sylw.

d) Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chodi pris am fagiau siopa, mynegwyd nad oedd tystiolaeth bod hyn yn achosi mwy o ddwyn mewn siopau. Ategwyd bod gwaith agos yn cael i wneud gydag archfarchnadoedd ac yn wyneb y newidiadau i fudd daliadau, nodwyd nad oedd dwyn bwyd wedi cynyddu.

dd) Derbyniwyd bod yr hinsawdd ariannol yn effeithio ar waith yr Heddlu a chydnabuwyd bod y toriadau wedi bod yn galed. Er hynny, adroddwyd bod y sefyllfa erbyn hyn wedi gwella a bod cydweithio da yn cael ei feithrin gyda Phartneriaid. Adroddwyd hefyd bod cynnydd o ddefnyddio technoleg gwybodaeth gan y gwasanaeth yn sicrhau bod yr heddlu yn y lle iawn ar yr adeg iawn. Amlygwyd bod yr heddlu yn cydweithio gyda chymunedau i geisio atal ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn pentrefi a threfi, ac o ganlyniad i Ddeddf 2014 Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlismona, rhoddir mwy o awdurdod i heddlu ymdrin â materion o'r fath er mwyn eu datrys. Awgrymwyd y dylid ei wneud yn fwy amlwg i gymunedau a bod modd adrodd troseddau i'r heddlu yn anhysbys, ond cydnabod bod hynny weithiau yn gwneud mynd ag achos i'r llys yn anoddach.

e) Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â 'Cyber Crime' nodwyd bod y drosedd yma yn disgyn o dan gategori aflonyddwch heb drais. Ymddengys bod y math yma o drosedd ar gynnydd yn genedlaethol ond dim tystiolaeth o gynnydd ar hyn o bryd yng Ngwynedd. Er hynny, mae yn fater mae'r heddlu yn cynllunio ymlaen ar ei gyfer a bod gwybodaeth ar ddiogelwch yn cael ei rannu.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**7. MAES PARCIO LLYN BACH, PORTHMADOG – cais galw i mewn**

a) Adroddwyd bod cais wedi ei wneud gan dri aelod o'r Pwyllgor i alw penderfyniad a wnaed gan yr Aelod Cabinet ar Faes Parcio Llyn Bach, Porthmadog. Atgoffwyd aelodau'r pwyllgor o'r drefn ac o'u hawl i alw i mewn penderfyniadau a wnaed gan y Cabinet neu Aelodau Cabinet unigol, ond sydd heb eu gweithredu eto, er mwyn eu hailystyried. Mynegwyd bod y penderfyniad yn cael i alw i mewn gan
   - Nad oedd ystyriaeth ddigonol wedi ei roi i'r ffaith y gall y Cwmni Rheilffordd ddefnyddio statudau Sant Steffan i ddefnyddio'r tir ar gyfer dibenion sydd yn groes i bolisïau amgylcheddol ac adfywio'r Cyngor.
   - Nad oedd ymgynghori digonol wedi ei wneud yn lleol

b) Cyflwynwyd adroddiad gan Pennaeth yr Adran Rheoleiddio yn gosod cyd-destun gan esbonio mai awdurdodi cyfnewid tir trwy gytundeb gyda Chwmni Rheilffordd Ffestiniog oedd y penderfyniad i roi sail ar gyfer cytuno rhaglen waith ymarferol i hwyluso rheolaeth effeithiol o'r safle. Eglurwyd bod trafodaethau rhwng y Cyngor a'r Cwmni Rheilffordd wedi cael eu cynnal ers blynyddoedd a bod Pennaeth yr Adran Rheoleiddio wedi adolygu'r mater ac wedi dod i'r casgliad fod y mater wedi llusgo yn rhy hir. Prif ganfyddiad y Pennaeth oedd rhoi ffocws ar y materion perthnasol a chanfod datrysiad er osgoi cyrraedd pwynt lle buasai rhaid cyfeirio'r mater i dribiwnlys fyddai yn debygol o arwain at ganlyniad anfoddhaol a chostau sylweddol i'r Cyngor.

c) O ran ymgynghori lleol, adroddwyd nad yw materion cyfnewid tir o'r fath yn destun ymgynghori eang ac yng nghyd destun ail leoli safle ailgylchu oedd ar y maes parcio, cydnabuwyd nad oedd digon o hysbysrwydd a rhagrybudd wedi ei wneud gyda'r Aelod Lleol, y Cyngor Tref a'r cyhoedd.

ch) Amlinellodd y Cyfreithiwr mai penderfyniad ymarferol i ddatrys perchnogaeth tir a wnaed gan yr Aelod Cabinet.

d) Sylwadau yr Aelod Lleol

   - Bod penderfyniadau tu allan i gyd-destun y mater wedi cymylu'r hyn sydd wedi ei nodi
   - Pryder bod y Cwmni Rheilffordd yn bwriadu datblygu storfa ar y tir ac nid maes parcio yn unig. Rhaid sicrhau bod amodau yn cael eu gosod ar y tir i wrthsefyll ceisiadau am ddatblygiadau ar y tir i'r dyfodol.
   - Y safle yn anaddas fel pwynt tramwyo ar gyfer cludo deunyddiau trwm rhwng y ffordd a'r rheilffordd sydd yn mynd yn groes i rai egwyddorion a nodi'r yn y Cynllun Datblygu Unedol.
   - Y tir yn agos at dai cymdeithasol sydd yn lloches i'r henoed ac oedolion bregus
   - Dim ymgynghori digonol wedi ei wneud gyda phreswylwyr Heol Madog a hefyd angen ystyried effaith hyn ar ddatblygiad yr Hen Felin
   - Pryder bod y penderfyniad yn cael ei wneud ar frys

dd) Mewn ymateb i'r sylwadau uchod nodwyd nad oedd bwriad gan y Cwmni Rheilffordd i wneud unrhyw ddatblygiad ar gyfer y safle, ond pe bai cais yn cael ei gyflwyno, buasai'n rhaid dilyn y drefn cynllunio fydd o ganlyniad yn dilyn polisïau priodol ac yn rhoi ystyriaeth i fwynderau trigolion cyfagos. Ategwyd bod yr Adran Rheoleiddio yn cadw golwg ar y safle o ran yr elfennau gweithredol. Os na fydd gweithgaredd yn cyd fynd a'r cytundeb yna bydd yr adran yn archwilio i hyn. Nodwyd bod y neges yma wedi ei hamlygu yn glir i'r Cwmni.

e) Materion yn codi o'r drafodaeth ddilynol:

   - Buasai sefydlu storfa yn adlewyrchu safle diwydiannol yn hytrach na'r hyn sydd eisoes yn bodoli ar y tir
   - Rhaid ail gyfeirio pryderon ac ail ymgynghori er mwyn adnabod beth yw'r risgiau a'r buddiannau i'r trigolion lleol

- Ymgysylltu a rhannu gwybodaeth gyda'r gymuned a'r aelod lleol cyn gweithredu er mwy sicrhau bod y gymuned yn hapus gyda'r penderfyniad.
- Bod pob opsiwn wedi cael ei ystyried
- Rhaid dysgu gwersi gan sicrhau bod ymgysylltu ac ymgynghori gwell gyda thrigolion lleol – mae'r mater o ddiffyg ymgysylltu yn codi yn rhy aml.
- Angen ystyried amodau ac ystyriaethau cyfreithiol i ddefnydd y tir i'r dyfodol
- Rhaid ystyried pwerau'r rheilffordd.

f) Mewn ymateb i'r sylwadau, nodwyd y buasai rhaid i unrhyw ymgynghori pellach ychwanegu gwerth ac o ystyried bod barn gyfreithiol eisoes wedi ei nodi mai datrysiad perchnogaeth tir yn unig sydd wedi ei benderfynu yma.

**PENDERFYNWYD cydnabod pryderon yr aelodau lleol a gofyn i'r Aelod Cabinet oedi gweithredu am y tro, fel bod cyfle i'r aelod lleol a'r swyddogion ymgysylltu a'r gymuned ac ystyried unrhyw opsiynau eraill am y datblygiad.**

## 8. STRATEGAETH WASTRAFF: NEWID I GASGLU GWASTRAFF GWEDDILLIOL

a) Amlygodd y Cynghorydd John Wynn Jones mai dyma ei gyfarfod cyntaf fel Aelod Cabinet - Amgylchedd a chydnabuwyd y gwaith da yr oedd ei ragflaenydd, y Cynghorydd Gareth Roberts wedi ei wneud.

b) Cyflwynwyd adroddiad gan Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn adrodd ar brif ganfyddiadau (hyd yma) o weithredu'r drefn casglu gwastraff gweddilliol yn Ardal Dwyfor ac os oedd unrhyw effaith ar y dinesydd yn Nwyfor o weithredu'r newidiadau hyn.

c) Ar yr 20fed o Hydref 2014, cychwynnwyd ar y drefn newydd o gasglu gwastraff pob tair wythnos. Ymddengys bod y newid wedi ei gyflwyno yn gymharol ddidrafferth ac yn amlwg o'r dechrau bod trigolion Dwyfor yn barod am y newid ac yn deall y trefniadau. Adroddwyd bod Tîm Gweithredol a Thîm Ymgysylltu wedi eu sefydlu ar gyfer cyflwyno'r newidiadau. Lleolwyd Swyddog Ailgylchu yn Galw Gwynedd, Penrhyndeudraeth er mwyn derbyn ymholiadau dros y cyfnod.

ch) Yn dilyn arolwg gan WRAP o gyfranogaeth trigolion Dwyfor i'r newid, adroddwyd bod cynnydd o 6.4% mewn gwastraff ailgylchu a 6.3% mewn gwastraff bwyd (sampl o 1131 o dai). Ymddengys hefyd bod y ffigyrau cychwynnol o ran effaith ar berfformiad ailgylchu yn Ardal Dwyfor hefyd yn adrodd ar gynnydd sylweddol mewn ailgylchu gwastraff gweddilliol a bwyd. O ganlyniad, adroddwyd bod y newid hwn yn Nwyfor yn unig wedi cyfrannu yn sylweddol at godi perfformiad ailgylchu Cyngor Gwynedd o 54% ym Mawrth 2014 i 57% ar gyfer y Sir gyfan ar ddiwedd Tachwedd, 2014. (Rhaid cyrraedd 58% erbyn mis Mawrth 2016). Yn ogystal gyda gostyngiad o 22% mewn gwastraff gweddilliol o 15000 o dai yn Nwyfor, bydd hyn yn ei hunan, yn arbed dros £100,000 i'r Cyngor mewn costau tirlenwi dros flwyddyn.

d) Dangoswyd dwy fideo fer oedd wedi cael eu darlledu drwy *you-tube* yn ystod yr ymgyrch - un i rannu gwybodaeth am y newidiadau a'r ail i ddiolch i bobl Dwyfor am eu cefnogaeth.

dd) Cynigiwyd y gwelliannau canlynol;

- Cyflwyno cart gylchu cyn cyflwyno newid i'r casgliadau os yn bosib
- Adolygu trefniadau Nadolig a Gŵyl San Steffan
- Amlygu neges o ddiolch drwy'r calendr – rhannu negeseuon positif yn effeithiol (dim ar y we yn unig).

e) Yn ychwanegol, nodwyd bod angen rhoi sylw pellach i;
   - Broses o gyflwyno biniau ailgylchu mewn mannau cyhoeddus
   - Wella hyfforddiant i weithwyr i sicrhau gofal pellach - hyn yn greiddiol i'r broses
   - Rhoi pwysau ar gwmnïau sydd yn creu gwastraff – angen gwthio hyn ar Lywodraeth Cymru i annog llai o ddeunydd pacedu
   - Annog preswylwyr i ailgylchu mewn fflatiau
   - Amlygu lliwiau yn well ar y calendr ac awgrymu atgoffa pobl drwy decst

**PENDERFYNWYD**

**a. Cyflwyno llongyfarchiadau'r Pwyllgor i'r Adran ac i bobl Dwyfor ar y llwyddiant sydd wedi ei weld wrth gyflwyno'r trefniadau newydd**

**b. Croesawu'r meysydd lle'r oedd yr Adran yn bwriadu eu gwella - cyflwyno cart gylchu ynghynt, os yn bosib, addasu trefniadau'r Nadolig a Gŵyl San Steffan ac amlygu negeseuon o ddiolch i bobl Dwyfor**

**c. Awgrymu gwelliannau pellach trwy hyfforddi gweithlu i wella taclusrwydd; annog symud ymlaen i ddatblygu ailgylchu mewn biniau ar y stryd a gwastraff masnachol; awyddus gweld syniadau creadigol yn cael eu datblygu i sefyllfaoedd mewn fflatiau, pwyntiau cymunedol / gwledig a gwyliau'r Haf.**

**ch. Gofyn i'r Aelod Cabinet lythyru Llywodraeth Cymru ynglŷn â safbwynt y Pwyllgor ar bacedu.**

**d. Gwahodd yr Aelod Cabinet yn ôl i adrodd ar weithredu newidiadau i gasgliadau gwastraff gweddilliol ym Meirionnydd gan adrodd os yw'r gwelliannau a' arbedion wedi eu gwireddu**

**9. CANOLFANNAU HAMDDEN - DIWEDDARIAD AR ADOLYGIAD HAMDDEN GAN *JUST SOLUTIONS.***

Croesawyd y Cynghorydd Mair Rowlands i'w Phwyllgor Craffu cyntaf fel Aelod Cabinet - Hamdden.

a) Cyflwynwyd adroddiad gan Pennaeth Economi a Chymuned ar y cynnydd sydd wedi ei wneud yn dilyn cwblhau adroddiad ar broffil defnyddwyr y Canolfannau Hamdden ynghyd ac argymhellion adolygiad strategol o Ganolfannau Hamdden Gwynedd gan *'Just Solutions'*. Prif bwrpas yr adolygiad oedd argymell i'r Cyngor sut y gellid datblygu canolfannau hamdden addas, effeithlon a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol gan sefydlu sail resymegol a phwrpasol iddynt.

b) Yn dilyn canlyniadau'r adroddiad strategol lluniwyd cyfres o gynigion arbedion effeithlonrwydd ar gyfer y Gwasanaeth Hamdden. Erbyn hyn, mae cynigion arbedion effeithlonrwydd gwerth £1.05 miliwn bellach wedi eu hymgorffori fel rhan o Strategaeth Ariannol y Cyngor ar gyfer 2014/2015 - 2017/2018. Adroddwyd bod y gwaith sydd yn ymwneud â gwireddu'r arbediad o £1.05m yn cael ei hyrwyddo a'i adolygu gan Fwrdd Prosiect Trawsnewid Gwasanaethau Hamdden ac yn adrodd ar gynnydd i'r Panel Cyflawni priodol.

c) Mewn ymateb i sylw ynglŷn â chodi ffioedd nodwyd bod ffioedd Gwynedd ymysg yr isaf yng Nghymru ac ymddengys mai lleoliad a thrafnidiaeth i'r ganolfan yw'r prif ffactor sydd yn atal pobl rhag eu defnyddio. O ran ymweliadau, mae Gwynedd yn ymddangos yn 2il drwy Gymru. Nodwyd hefyd nad oedd un Canolfan Hamdden yn hunangynhaliol drwy Wynedd gydag amrediad rhwng 41% a 80% yn y raddfa y mae costau yn cael ei hadennill.

ch) Adroddwyd bod llywodraeth Cymru yn torri grant nofio am ddim o 40% ac felly bydd rhaid ymgyrchu i ddefnyddio'r arian yma yn fwy creadigol. Adroddwyd bod cynllun newydd yn cael ei gyflwyno, ond gwnaed sylw bod angen hybu'r adnodd a rhoi cyfle i bob plentyn gan gynnwys hawl i riant nofio am ddim os bydd plentyn dan 8 oed yn bresennol.

d) Cytunwyd bod potential yma i wella a datblygu canolfannau. Cyfleodd da wedi eu hadnabod gan yr adran a pharodrwydd i gydweithio gyda chymunedau. Pwysleisiwyd nad oedd bwriad trosglwyddo unrhyw ganolfan i'r Sector Breifat, a bod Trac Treborth a Chanolfan Arfon ym Mangor yn cael eu hystyried fel trosglwyddiadau posib yn ôl i'w perchnogion.

dd) Amlinellodd yr Aelod Cabinet nad oedd bwriad cau unrhyw Ganolfan Hamdden ond cynnig modelau gwell. Nodwyd bod pob Rheolwr Canolfan Hamdden yn adolygu cynlluniau busnes er mwyn gwneud y Canolfannau yn fwy deniadol ac ystyried mathau gwahanol o weithgareddau gan gofio na all pob canolfan gynnig pob peth. O fewn pob ardal bydd trafodaethau aeddfed yn cael eu cynnal gyda'r aelodau lleol, Rhanddeiliaid a Chynghorau Cymuned ynglŷn â datblygiad y ganolfan leol - trafodaethau yn Abermaw eisoes wedi dechrau. Nodwyd os bydd gwasanaethau yn cael eu cynnig i'r cyhoedd bod rhaid bod yn agored i'r cyhoedd a gosod oriau agor hyblyg gan fod cymhlethdod yn bodoli mewn rhai canolfannau ynglŷn â beth sydd ar gael a phryd.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ac edrych ymlaen at gydweithio yn lleol gyda chynlluniau busnes y Canolfannau Hamdden**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00am a daeth i ben am 1:20pm

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **DYDDIAD** | 21 Mai, 2015 |
| **TEITL** | Arbedion Effeithlonrwydd 2015/16 – 2017/18 |
| **PWRPAS** | Adrodd ar gynllun perthnasol i'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol sydd wedi ei gyfeirio i'r Pwyllgor Craffu am sylw pellach. |
| **AELOD CABINET** | Cyng. John Wyn Jones |

**1. Cefndir**

1.1 Bu i'r Cabinet yn ei gyfarfod 16 Rhagfyr, 2014 benderfynu bod cynllun arbedion effeithlonrwydd gynigwyd gan yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol i dderbyn sylw pellach gan y Pwyllgor Craffu ac yn benodol:

PB24 Trefn Wahanol o Newid Lampau: 'Pwyllgor Craffu Cymunedau i edrych a chymharu'r cynnig gyda'r drefn bresennol ("bulk change") er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y dewis cywir. Cyflwynwyd y drefn 'bulk change' fel ffordd o arbed arian yn y lle cyntaf.

1.2 Mae'r Adroddiad hwn i'r pwrpas. Bydd argymhellion y Pwyllgor hwn ar y cynllun dan ystyriaeth yn cael eu cyfeirio yn ôl i'r Cabinet am benderfyniad terfynol.

**2. PB24. Trefn Wahanol o Newid Lampau £97k (2015/16)**

2.1 Yn bresennol mae'r Cyngor yn gweithredu newid lampau yn ei lusernau golau stryd ar amlder o 3 blynedd gan ddilyn trefn o newid crynswth h.y. newid goleuadau stryd neu ardal gyfan yr un pryd, er bod rhai llusernau yn parhau i weithio.

2.2 Cyflwynwyd y drefn o newid crynswth i bwrpas:

- osgoi cael dirywiad yn safon golau o'r llusern wedi 3 blynedd (gan fod y lampau wedi ei ddylunio i fod yn weithredol am 3 blynedd).
- cael amserlen cynnal fwy effeithiol lle nad oedd angen ail-ymweld a stryd neu ardal.
- cael lefelau goleuo cyson ar gwblhau'r newid.

2.3 Mae datblygiadau sylweddol diweddar mewn technoleg goleuo, ac yn benodol lle mae oes gweithredol lampau yn ymestyn dros fwy o flynyddoedd, yn diddymu'r angen newid llusernau dan y drefn newid crynswth.

2.4 Mae oes gweithredol llusern LED rhwng 7 a 10 mlynedd a gall y cyfnod hwn gael ei ymestyn gyda chyflwyno offer rheoli e.e. sy'n caniatáu pylu. Nid yw yn effeithiol na'n ymarferol cael trefn o newid crynswth i llusernau o ganlyniad.

2.5 Dyma'r datblygiadau mewn technoleg sy'n caniatáu hyn:

- gyda technoleg LED, nid oes angen newid crynswth
- mae safon well o lusernau nawr ar gael gyda oes weithredol hirach
- mae offer swîts rheoli goleuo yn caniatau ymestyn oes y llusern ymhellach
- mae lefel golau o'r llusern yn gyson drwy ei oes gweithredol
- mae safon well o olau i'w gael gyda llusernau diweddar.

2.6 Mae Cyngor Gwynedd gyda rhaglen gynhwysfawr o newid ei system goleuadau stryd i rai mwy effeithiol LED gyda offer swîts ar gyfer pylu (rhai i ddiffodd rhan o'r nos lle'n addas) ac er mwyn ymestyn oes y llusern, a lleihau costau ynni ac allyriadau carbon.

2.7 O ganlyniad, mae posib diddymu'r drefn o newid llusernau ar raddfa eang ac ar gylch o 3 blynedd. Rhagwelir y byddai hyn yn sicrhau arbedion o £97000 blynyddol i'r Cyngor mewn costau cynnal goleuadau stryd.

2.8 Yr uchod yw sail Cynllun Arbedion PB24: Trefn Wahanol o Newid Lampau.

## 3. Argymhelliad

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu am ei sylwadau parthed y cynllun arbediad effeithiolrwydd arfaethedig dan sylw ac i bwrpas galluogi'r Cabinet wneud penderfyniad terfynol ar y cynllun hwn.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **DYDDIAD** | 21 Mai, 2015 |
| **TEITL** | Gorfodaeth Stryd |
| **PWRPAS** | Adroddiad Cychwynnol ar y bwriad cynnal Ymchwiliad Craffu i'r drefn Hawliadau Gorfodaeth |
| **AELOD CABINET** | Cyng. John Wyn Jones |

**1. Cefndir**

1.1 Mae'r Gwasanaeth Stryd Cyngor Gwynedd gyda chyllideb blynyddol net o £300,150 a gyda'r adnoddau staff canlynol:

Rheolwr Gwasanaethau Stryd
2 Swyddog Gorfodaeth
3 Warden Gorfodaeth
Swyddog Gweinyddol
Swyddog Trefi Taclus (grant gan Lywodraeth Cymru).

1.2 Mae cyfrifoldebau'r Gwasanaeth Stryd yn ymestyn i godi ymwybyddiaeth ac addysgu'r cyhoedd ar sicrhau amgylchedd lan a diogel, gweithredu polisïau ar graffiti, nodwyddau a lanteri, monitro perfformiad glendid strydoedd a chynnal a chynorthwyo mewn ystod o ymgyrchoedd perthnasol.

1.3 Mae gan y Gwasanaeth Stryd gyfrifoldeb am sicrhau Gorfodaeth Stryd a Gwastraff sy'n cynnwys:

- rheoli cwn, sbwriel, graffiti a phosteri
- gwaredu slei bach, cyflwyno gwastraff, gwastraff masnachwyr, trosglwyddo gwastraff a dyletswyddau gofal.

1.4 Mae gan swyddogion y gwasanaeth allu i gosbi a rhoddi dirwyon pan fydd troseddu amgylcheddol. Dyma ystadegau diweddar:

| **Hysbysiad Cosbau Penodedig (HCP) roddwyd 2014-15** | |
|---|---|
| Cyfanswm HCP roddwyd | 101 |
| Nifer o HCP roddwyd gan y Tîm Gorfodaeth Stryd | 100 |
| Nifer o HCP roddwyd gan eraill yn y Cyngor/PCSO's | 1 |
| Nifer o Lythyrau Rhybuddio roddwyd | 1,480 |
| Nifer o erlyniadau llwyddiannus | 2 |
| Canran o HCP dalwyd heb weithred pellach | 81% |
| Incwm | £5,500 |

## 2. Ymchwiliad Craffu

2.1 Mae'r Pwyllgor Craffu yn bwriadu cynnal Ymchwiliad Craffu i'r maes Gorfodaeth Stryd yn ystod 2015/16 ac, mae'r canlynol yn awgrymiadau cychwynnol ar gyfer sefydlu cylch gorchwyl yr ymchwiliad:

- perfformiad o safbwynt gorfodaeth, allbynnau
- lefel adnoddau ar gyfer gorfodi
- posibiliad i eraill gynorthwyo mewn gorfodi e.e. heddlu
- posibiliad o ddefnyddio cwmni/au pwrpasol i roddi hysbysiadau cosbau penodedig (fel sy'n weithredol yn siroedd Conwy a Dinbych).

## 3. Camau Nesaf

3.1 Disgwylir i'r Pwyllgor Craffu sefydlu Tîm o Aelodau'r Pwyllgor i gynnal yr Ymchwiliad Craffu, ynghyd â'r amserlen ar gyfer ei gyflawni.

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **CYMUNEDAU** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **21 MAI 2015** |
| **TEITL** | **Archwiliad Manwl yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar drefniadau Cyngor Gwynedd ar gyfer gorfodaeth Deddf Diogelwch Bwyd 1990:6 a 7 Mawrth 2014 – Adroddiad Diweddaru** |
| **AWDUR** | **DAFYDD WILLIAMS, PENNAETH ADRAN RHEOLEIDDIO (DROS DRO)** |
| **AELOD CABINET** | **CYNGHORYDD DAFYDD MEURIG** |
| **PWRPAS** | **Rhoi ail ddiweddariad i'r Pwyllgor ar y cynnydd a wnaed gan Wasanaeth Gwarchod y Cyhoedd i ymdrin â chanfyddiadau Archwiliad Manwl yr Asiantaeth Safonau Bwyd.** |

**1. Cefndir**

1.1 Cynhaliodd Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) archwiliad manwl ar drefniadau Cyngor Gwynedd i orfodi gofynion y Ddeddf Diogelwch Bwyd ar y 6ed a 7fed o Fawrth 2014.

1.2 Roedd yr archwiliad yn canolbwyntio ar ddau agwedd;

a. Sut roedd y Cyngor yn gweithredu argymhellion yr Ymchwiliad Cyhoeddus i'r achosion o E.Coli 0157 yn ne Cymru ym mis Medi 2005 a ,
b. Sut y rheolir ymyraethau mewn busnesau bwyd newydd.

1.3 Cafwyd Adroddiad gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) oedd yn cynnwys beirniadaeth llym o ddiffyg cydymffurfiaeth gydag argymhellion yr Ymchwiliad Cyhoeddus a diffygion yn ein trefniadau rheoli ymyraethau mewn busnesau bwyd newydd.

1.4 O ganlyniad cafodd Cynllun Gweithredu ei baratoi oedd yn manylu sut roedd y Gwasanaeth yn bwriadu cywiro'r diffyg cydymffurfiaeth. Cafodd y cynllun sêl bendith yr ASB ac yn ystod tymor yr Hydref 2014 aeth Grŵp Tasg a Gorffen ati i gwblhau'r gwaith a fanylwyd.

1.5 Yn ystod cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar y 1af o Hydref 2014 darparwyd adroddiad oedd yn manylu'r cynnydd wnaed wrth ymdrin ar ddiffygion nodwyd gan yr ASB.

1.6 Yn ystod y cyfarfod cafwyd cais gan Bwyllgor Craffu am ddiweddariad pellach yn ystod 2015.

**2. Gwaith y Grŵp Tasg a Gorffen**

2.1 Roedd y cynllun gweithredu yn manylu 13 maes ar gyfer cwblhau gwelliannau. Yn fras medr cynnwys y gwelliannau yma mewn 6 categori.

a) Cynnal adolygiad sylfaenol o gynnwys holl nodiadau gweithdrefnau bwyd heblaw am eiddo cymeradwy, sydd â threfniadau arbennig ar eu cyfer.
b) Cynnal adolygiad sylfaenol o fformat a chynnwys ffurflenni archwiliadau bwyd a ddefnyddir gan swyddogion sy'n cynnal archwiliadau hylendid bwyd.
c) Cynnal adolygiad o holl weithdrefnau monitro mewnol a phenderfynu ar lefelau monitro digonol.
d) Darparu hyfforddiant a chanllawiau manwl i staff yr Uned Bwyd ynghylch unrhyw newidiadau i nodiadau gweithdrefnau bwyd a ffurflenni archwiliadau bwyd ymgorfforwyd yn y dogfennau perthnasol yn dilyn cwblhau'r gwaith nodir yng nghategori a) ac b), uchod.
e) Darparu hyfforddiant gloywi i swyddogion ynghylch cofnodi achosion o dorri deddfwriaeth fel 'torri rheolau yn arwyddocaol a darpariaethau atodiad 5 Dogfen Gyngor Cyfraith Bwyd.
f) Adolygu digonolrwydd yr hyfforddiant a roddwyd i holl staff sy'n cyflwyno mesurau rheoli hylendid bwyd swyddogol.

2.2 Yn ystod yr adroddiad blaenorol i'r Pwyllgor Craffu (1/10/14) eglurwyd dylai'r gwaith a restrir yng nghategori a), b) ac c) uchod fod wedi ei gwblhau erbyn y 26ain o Fedi 2014 a categori d) wedi ei gwblhau erbyn diwedd Hydref.

2.3 Roedd categori e) eisoes wedi ei gwblhau yn ystod mis Gorffennaf 2014.Parthed categori F ), adnabuwyd ar y pryd fod hyfforddiant (a chofnod o'r hyfforddiant ) yn cydymffurfio a gofynion y Cod ymarfer Cyfraith Bwyd.

**3. Cynnydd ers Hydref 2014.**

3.1 Daeth gwaith y Grŵp Tasg a Gorffen i ddiwedd ym mis Tachwedd 2014. Wedi hyn dychwelodd cyfrifoldeb am adolygu a monitro perfformiad parhaus yn ôl i Reolwr Gwarchod y Cyhoedd (Hylendid Gwyd).

3.2 Ddiwedd mis Rhagfyr 2014 bu i reolwr arall gymryd awenau rheolaeth Uned Hylendid Bwyd Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd. Y rheolwr fu'n gyfrifol am y Grŵp Tasg a Gorffen sydd bellach yn rheoli'r Uned.

3.3 Ers Hydref 2014 cafwyd y cynnydd canlynol, wedi ei nodi yn unol ar 6 categori gwelliannau nodir yn flaenorol.

a) Mae'r nodiadau gweithdrefnau bwyd wedi derbyn adolygiad sylweddol ac mewn defnydd. Yn dilyn adborth staff mae nifer o newidiadau wedi eu gwneud. Cafodd copïau o'r nodiadau ei gyrru at yr ASB gan eu bod wedi cytuno i ddarparu sylwadau arnynt. Nid ydym eto wedi derbyn ymateb. Mae Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd wedi buddsoddi mewn rhaglen cynnal nodiadau gwaith a dogfennau cysylltiedig o'r enw RIAMS. Mae'r nodiadau wedi eu trosglwyddo i'r rhaglen ond mae peth gwaith adolygu yn parhau.
b) Mae ffurflenni archwilio diwygiedig mewn defnydd ac wedi eu hadolygu ar sawl achlysur yn dilyn adborth gan staff. Bydd y ffurflenni yn cael eu hadolygu a'i diwygio (fel fo angen) yn rheolaidd.
c) Mae gweithdrefnau monitro mewnol wedi eu hadolygu gydag adroddiadau monitro perfformiad newydd wedi eu creu a threfn rhedeg adroddiadau diwygiedig wedi ei fabwysiadau ar gyfer rhai oedd wedi eu sefydlu yn flaenorol.
d) Mae holl staff y gwasanaeth wedi derbyn hyfforddiant yn nefnydd y nodiadau gweithdrefnau newydd . Rhoddwyd blaenoriaeth i'r nodiadau hynny oedd yn newid trefniadau gwaith yn sylweddol. Mae cam pellach i'w gyflawni sef hyfforddi aelodau o'r tîm cynorthwyol ran gwaith a fanylir yn y nodiadau cofnodi busnesau bwyd newydd. Bydd hyn wedi ei gwblhau erbyn diwedd Mis Mai.
e) Mae'r hyfforddiant gloywi wedi ei gwblhau. Yn ogystal mae rhaglen adolygiad mewnol, sef swyddogion y gwasanaeth yn cysgodi eraill wrth gynnal archwiliadau gan ddarparu adborth, wedi ei gynnal ac ar fin dod i ddiwedd.
f) Cafwyd fod hyfforddiant staff yn ddigonol ym mis Hydref. Er hyn mae holl swyddogion yr Uned wedi derbyn amrywiaeth o hyfforddiant arbenigol pellach ac mae'r rhaglen hyfforddiant yn parhau.

## 4. Casgliad

4.1 Ystyrir fod yr Uned bellach wedi dileu'r diffygion cydymffurfiaeth ddifrifol adnabuwyd gan yr ASB yn ystod yr archwiliad ym mis Mawrth 2014.

4.2 Mae cyfrifoldeb ar y Cyngor i sicrhau ein bod yn cwrdd â gofynion argymhellion yr ymchwiliad cyhoeddus a gorfodaeth deddfwriaeth mewn busnesau newydd a dylid fod ein hymdrechion diweddar yn parhau. Mae'r ASB wedi adrodd eu bwriad i gynnal archwiliad llawn o weithgareddau'r Uned Bwyd yn y dyfodol agos.

**PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU 21.05.15**

**YMCHWILIAD CRAFFU CYNLLUNIO – BRIFF DRAFFT**

**1. CEFNDIR**

1.1 Mae yn bwysig iawn bod y drefn gynllunio yn cydfynd ag anghenion cymunedau'r Sir ac mae canfyddiad nad oes digon o ystyriaeth yn cael ei roi i faterion fel yr economi wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Yn sgil hyn penderfynwyd cynnal ymchwiliad craffu ar y drefn gynllunio, gan ystyried cyfundrefnau cynllunio'r Cyngor a'u haddasrwydd ar gyfer cyd-fynd ag anghenion cymunedau'r Sir yn economaidd, yn ogystal â ffactorau eraill.

1.2 Rhaid nodi fod yr ymchwiliad yma yn benodol berthnasol i Ardal Awdurdod Cynllunio Cyngor Gwynedd yn unig, gan mai Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yw'r Awdurdod Cynllunio ar gyfer ardal y Parc.

1.3 Mae'r system gynllunio'n gweithredu o fewn fframwaith statudol a chredir fod angen deall:-

i) beth yw'r gofynion statudol perthnasol

ii) y fframwaith polisi cynllunio'n genedlaethol ac yn lleol

iii) ystyriaethau cynllunio perthnasol eraill a beth yw'r pwysau a roddir i'r ystyriaethau cynllunio hynny.

1.4 Gellir wedyn edrych mewn mwy o fanylder ynglŷn â sut mae Cyngor Gwynedd yn gweithredu o ran penderfyniadau ar geisiadau cynllunio a sut roddir cyngor i ddarpar ddatblygwyr, cyn iddynt gyflwyno cais.

**2. PWRPAS YR YMCHWILIAD**

2.1 Bydd yr ymchwiliad yn ceisio, yn y lle cyntaf sefydlu ddealltwriaeth ynglyn â :

- Beth yw'r gofynion statudol sydd yn berthnasol i'r system gynllunio?
- Beth yw'r gofynion o ran polisïau cynllunio cenedlaethol a lleol?
- Beth yw'r ystyriaethau cynllunio perthnasol wrth ddelio gyda cheisiadau cynllunio a pha bwysau a roddir i'r ystyriaethau cynllunio gwahanol?
- Faint o ryddid sydd gan y gyfundrefn gynllunio o fewn y fframweithiau uchod

2.2 Bydd yr Ymchwiliad wedyn yn ceisio ateb y cwestiynau a ganlyn:-

- Sut mae Cyngor Gwynedd yn delio gyda cheisiadau cynllunio o ran trefn, perfformiad, niferoedd ac ati?

DRAFT

- Oes yna unrhyw dystiolaeth gadarn sydd yn awgrymu nad yw'r Cyngor yn rhoi digon o ystyriaeth i'r economi wrth baratoi polisïau cynllunio ac wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio?
- A yw'r trefniadau sydd gan y Cyngor ar gyfer cynnig cyngor i ddarpar ddatblygwyr wrth iddynt fynd trwy'r broses gynllunio yn llyfn a hwylus a felly yn cyfleu delwedd o gyfundrefn sydd yn hybu a datblygy neu un sydd yn rheoleiddioi?

**3. EFFAITH**

3.1 Bydd yr Ymchwiliad Craffu yn:

- Llunio argymhellion clir yn seiliedig ar dystiolaeth er ystyriaeth gan yr Aelod Cabinet
- Rhoi ystyriaeth briodol i unrhyw rwystrau a sut i'w datrys

DRAFFT

| PWYLLGOR | PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU |
|---|---|
| DYDDIAD Y CYFARFOD | 21 MAI, 2015 |
| TEITL | AWDURDOD TÂN GOGLEDD CYMRU |
| PWRPAS | Craffu trefniadau'r Cyngor i herio effeithlonrwydd ac atebolrwydd yr Awdurdod Tân |
| AWDUR | Geraint Owen, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol |

**Cefndir a Chyd-destun**

1. Mae gan yr Awdurdod Tân yr hawl i osod praesept ar gynghorau Gogledd Cymru er mwyn talu am y gwasanaeth. Mae'r praesept yma yn cyfrif yn erbyn gwariant y Cyngor. Mae hyn yn wahanol i braesept yr Awdurdod Heddlu sydd yn cael codi praesept ar wahan.

2. Mae'r gwahaniaeth yma yn sylfaenol bwysig gan fod unrhyw gynnydd yng ngwariant yr Awdurdod Tân yn rhan o ystyriaethau'r Cyngor o ran y balans rhwng gwario a chodi'r dreth, o'i gymharu ag unrhyw gynnydd yng ngwariant yr Heddlu sydd yn mynd yn syth drwodd i'r trethdalwr drwy godi praesept uwch arnynt. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod pob £10,000 yn fwy o braesept y mae'r Awdurdod Tân am i Gyngor Gwynedd ei godi yn £10,000 y mae'n rhaid i'r Cyngor naill ai ei ganfod trwy dorri ei wasanaethau eu hunan neu trwy gynyddu'r dreth.

3. Ar gyfer y blynyddoedd diwethaf dyma fu'r sefyllfa gyda phraesept yr Awdurdod Tân yn erbyn y cynnydd setliad a gafodd Cyngor Gwynedd yn ei grant gan Lywodraeth Cymru:-

| Blwyddyn | Grant Cyngor Gwynedd | Praesept Awdurdod Tân |
|---|---:|---:|
| 2009/10 | 168,503,870 | 31,311,563 |
| 2010/11 | 169,919,000 (+0.84%) | 32,093,400 (+2.50%) |
| 2011/12 | 168,026,300 (-1.44%) | 31,932,654 (-0.50%) |
| 2012/13 | 168,066,700 (+0.05%) | 31,772,011 (-0.51%) |
| 2013/14 | 181,633,250 (+1.22%) | 31,772,011 (0.00%) |
| 2014/15 | 174,970,570 (-4.56%) | 31,772,011 (0.00%) |
| 2015/16 | 168,311,989 (-3.97%) | 31,885,843 (+0.27%) |
| **Cyfanswm** | **-7.75%** | **+1.74%** |

DS Mae praesept y Gwasanaeth Tân ar Gyngor Gwynedd yn 2015/16 yn £5,603,000. Felly byddai pob cynnydd o 1% yn £56,030 pellach i'r Cyngor ei ganfod mewn toriadau neu godiad treth

4. Dros y chwe mlynedd ers 2009/10, mae praesept yr Awdurdod Tân wedi cynyddu 1.74% tra bod grant Cyngor Gwynedd wedi gostwng 7.75%. Yn y ddwy flynedd diwethaf y gwelwyd y bwlch yma yn datblygu wrth i grant y Cyngor leihau'n sylweddol.

5. ‘Roedd gan yr Awdurdod Tân weithgor fu’n rhoi sylw i’r Cynllun Gwella sydd ganddynt ac a fu’n ystyried y diffyg cyllido fyddai ganddynt dros y 5 mlynedd i ddod. ‘Roedd yr Awdurdod yn gweithio ar gynllun oedd yn cyfyngu unrhyw gynnydd yn ei gyllideb i swm sy’n gyfystyr â £1 y pen o’r boblogaeth ac y dylid ymestyn hyn hyd at 2019/20.

6. Fe benderfynodd yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 16 Mehefin 2014 y dylid ymgynghori gydag awdurdodau ar hyn. Cafwyd cyflwyniad i aelodau’r cabinet gan y Prif Swyddog Tân ar 24 Medi 2014 ac yn y cyfarfod hwnnw fe nododd ei farn fod yr awdurdod mor effeithlon ag y gallai fod a phe na byddem yn cytuno i’r hyn oedd ganddynt dan sylw, byddai yna effeithiau sylweddol.

7. Yn amlwg, mae’n anodd dod i benderfyniad ar effeithlonrwydd wrth ystyried gwasanaeth sydd yn delio â bywyd a marwolaeth. Y pryder felly yw y gallai cyllideb y Gwasanaeth Tân gael ei warchod heb ofyn cwestiynau pwysig am y gwariant hynny a bod hynny ar draul gwasanaethau eraill y Cyngor am y rhesymau a nodwyd uchod.

8. Mae’n amlwg bod y Gwasanaeth Tân yn wasanaeth allweddol ac yn hanfodol pan y mae bywydau unigolion yn y fantol, ond nid yw hynny yr un fath a dweud nad oes disgwyl iddo fod mor effeithlon ag y gallai fod. Yn wir, ma’n amlwg na all Awdurdodau Tân gael eu heithrio o’r angen i edrych am arbedion a bod yn fwy effeithlon.

**Trefniadau’r Cyngor ar gyfer herio Effeithlonrwydd y Gwasanaeth**

9. Mae hyn yn dod â ni at wraidd y broblem. Gyda phob gwasanaeth arall o fewn y Cyngor, mae modd i’r Cyngor weld yn glir a oes yna gyfleoedd i fod yn fwy effeithlon ond ar gyfer y Gwasanaeth Tân nid yw’r cyfle yma gennym fel Cyngor; rhaid ymddiried yn ein cynrychiolwyr ar yr Awdurdod i sicrhau bod hynny’n digwydd.

10. Gwahoddwyd cynrychiolwyr y Cyngor ar yr Awdurdod i’r cyfarfod hwn er mwyn gwneud asesiad cychwynol o ba wybodaeth sydd ganddynt bod y Gwasanaeth mor effeithlon ag y gallai fod a pha dystiolaeth sydd yna i gefnogi hynny.

11. Dengys dadansoddiad cychwynol bod y Gwasanaeth Tân yng Ngogledd Cymru yn gwario yn is fesul pen na gweddill awdurdodau tân Cymru ond mae hefyd yn wir bod awdurdodau gwledig yn Lloegr sydd yn gwario llai. Nid yw hyn yn o reidrwydd yn dweud sut y mae nhw yn perfformio wrth gwrs ond mae yna gwestiynau y dylid eu gofyn ynglyn â sut y maent yn medru gwneud hynny. Gweler y tabl sydd ynghlwm.


12. Yn naturiol, os yw’r gwasanaeth mor effeithlon ag y gallai fod yna mae angen ei warchod ond, yn yr hinsawdd ariannol bresennol (ac effaith hynny ar wasanaethau eraill y Cyngor), rhaid gofyn cwestiynau effeithlonrwydd. Tybed a oes gwersi i’w dysgu o ardaloedd eraill tebyg lle mae’r gwariant yn llai ac a oes lle i godi cwestiynau am Gynllun Gwella a Lleihau Risg yr Awdurdod, er enghraifft am leoliadau gorsafoedd bychan ar draws yr ardal. Diau bod engreifftiau eraill y gellir mynd ar ei hôl.

13. Ym mis Rhagfyr fe dderbyniodd yr Awdurdod adroddiad yn nodi fod ganddynt bwysau ar wasanaethau yn gyfystyr â £750,000 yn 2015/16 ond, o weithredu rhai arbedion, y gellid lleihau hwn i £337,000. Deellir hefyd bod elfen o reserfau wedi eu defnyddio gyda chynnydd eleni ddim ond yn £113,832. Fodd bynnag, fel ar gyfer y Cyngor, nid yw defnyddio reserfau yn gynaliadwy ac mae'n bryder bod yr adroddiad ar gyfer gosod cyllideb 2015/16 yn nodi angen i gynyddu 3.9% yn 16/17 a 1.4% yn 17/18.

14. Er bod y mater yn medru bod yn un anodd ac emosiynol, y pris o beidio a mynd ar ôl y mater wrth gwrs yw lleihad pellach ar wasanaethau eraill hanfodol y Cyngor, y tu hwnt i'r lleihad y byddwn yn gorfod ei weld prun bynnag; bydd aelodau yn gweld hyn yn amlwg iawn yn y gyfres o weithdai ym mis Mehefin ar doriadau posib ar wasanaethau'r Cyngor. Nid yw yn fater o ychwanegu £1 arall at y Dreth Gyngor fel sy'n cael ei honni gan yr Awdurdod Tân – 'rydym eisoes wedi uchafu'r swm y gellir ei osod ar y dreth a thorri mwy o wasanaethau'r Cyngor ei hun fyddai'r unig ateb.

15. Y bwriad felly yw holi cynrychiolwyr y Cyngor ar yr Awdurdod Tân am:-

- Gynlluniau'r Awdurdod i geisio cynnydd pellach yn y praesept yn y blynyddoedd nesaf a goblygiadau hynny i wasanaethau'r Cyngor ei hun
- Drefniadau'r Awdurdod Tân ei hun ar gyfer herio effeithlonrwydd y Gwasanaeth a'r dystiolaeth ei fod mor effeithiol ag y gallai fod
- Barodrwydd yr Awdurdod i edrych ar ardaloedd eraill tebyg sydd yn gwario llai i asesu a oes gwersi y gellir dysgu ganddynt
- Y graddau y mae syniadau effeithlonrwydd pellach yn cael eu gwyntyllu
- Rôl aelodau unigol o'r Cyngor yn craffu a sicrhau atebolrwydd ar drefniadau'r Awdurdod a'r graddau y maent yn medru gweithredu'r rolau hynny


Gwariant net ag eithrio costau cyfalaf fesul 1,000 o'r boblogaeth (2012/13) Awdurdodau gwledig yn unig (cynnwys Alban a Gogledd Iwerddon)
Net expenditure excluding capital charges per 1,000 population (2012/13) Rural authorities only (including Scotland an
60,000
50,000
40,000
30,000
20,000
10,000
-
Lincolnshire
North Yorkshire
Shropshire
Northern Ireland
Grampian
Cumbria
North Wales
Mid and West Wales
Northumberland
Central
Dumfries and Galloway
Tayside